Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cylch Gorchwyl: Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol 2024

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2024

Cymeradwywyd gan y Bwrdd: 30 Gorffennaf 2024

# Cynnwys

**Cylch Gorchwyl**

Statws 3
Rôl 3
Cyfrifoldebau 3
Gweithgareddau awdurdodedig 4
Aelodaeth 5
Ysgrifenyddiaeth 5
Cyfarfodydd 6
Mynediad 7
Cyflwyno adroddiadau 7
Gofynion o ran gwybodaeth a rhaglen fusnes 8
Adolygu perfformiad, hyfforddiant a datblygu 9
Adolygu'r cylch gorchwyl hwn 9

## Statws

1 O dan baragraff 29 Atodlen 1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, gall rheolau gweithdrefnol Swyddfa Archwilio Cymru ddarparu ar gyfer sefydlu pwyllgorau y gall Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ddirprwyo unrhyw rai o'i swyddogaethau iddynt.

2 Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol i'w gynghori pa un a yw fframwaith polisi Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer rheoli, datblygu a gwobrwyo adnoddau dynol yn cefnogi'r nodau ac amcanion strategol a bennwyd gan y Bwrdd.

## Rôl

3 Rôl y Pwyllgor yw darparu sicrwydd a chyngor annibynnol ar gyfer y Bwrdd wrth ystyried pa un a yw telerau ac amodau staff Swyddfa Archwilio Cymru a'r polisïau tanategol:

(a) yn cefnogi'r broses o gyflawni dyletswyddau statudol a chyrraedd nodau strategol Swyddfa Archwilio Cymru;

(b) yn ei gwneud yn bosibl cynnal busnes yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus; ac

(c) yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddiol, gan gynnwys sicrhau bod y datgeliadau yn yr adroddiad blynyddol ar gydnabyddiaeth ariannol yn unol â gofynion cyfreithiol.

4 Nid yw'r Pwyllgor yn gyfrifol nac yn gwneud sylwadau am y prosesau a gweithdrefnau manwl i roi polisi ar waith sy'n fater i'r Prif Weithredwr.

## Cyfrifoldebau

5 Mae'r Pwyllgor yn cynghori'r Bwrdd trwy graffu ar dri maes eang o ran rheoli a datblygu adnoddau dynol a'u herio:

(a) llywodraethu –

- newidiadau mawr i strwythur sefydliadol yr uwch dîm fel a gynigiwyd gan y Prif Weithredwr
- penodi cyfarwyddwyr sy'n uniongyrchol atebol i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr a chyfarwyddwyr neu arweinwyr ymgysylltu ar gyfer Comisiwn y Senedd a Chronfa Gyfunol Cymru
- rhoi Strategaeth y Gweithlu ar waith trwy fonitro'r cynllun cyflawni;

(b) perfformiad –

- newidiadau i'r systemau, polisïau neu brosesau arfarnu perfformiad a gweithredu prosesau arfarnu perfformiad

- adolygu crynodeb o berfformiad blynyddol y Cyfarwyddwyr Gweithredol, sy'n uniongyrchol atebol i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr, yn erbyn yr amcanion cyfunol ac unigol a bennwyd ar ddechrau'r flwyddyn.

(c) polisi a chydnabyddiaeth ariannol –

- telerau ac amodau cyflogaeth cyffredinol Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys graddfeydd cyflog a'r strategaeth gyflogau, newidiadau sylweddol i delerau ac amodau ac unrhyw bolisïau newydd neu ddadleuol.[1]
- adolygu trefniadau rheoli talent a chynllunio ar gyfer olyniaeth
- cymhwyso polisïau i'r uwch dîm, yn benodol mewn perthynas â cheisiadau am ymadael gwirfoddol
- cymhwyso'r polisi ymadael gwirfoddol i gyflogeion eraill lle mae'r gost ymadael yn £95,000 neu fwy
- cytundebau setlo ar gyfer cyfarwyddwyr ar yr uwch dîm ac ar gyfer aelodau eraill o staff lle mae'r gost ymadael yn £95,000 neu fwy.

6 Mae'r Bwrdd wedi cadw'r cyfrifoldeb am y canlynol i'w hunan:

(a) pennu strategaeth y gweithlu (neu beth bynnag sy'n cyfateb i hynny);

(b) pennu a chraffu ar fesurau perfformiad allweddol fel rhan o fonitro'r modd y cyflawnir y cynllun busnes;

(c) pennu a chraffu ar y polisïau canlynol – (gan gynnwys polisïau cyfatebol ag enwau gwahanol) -

- iechyd a diogelwch
- cydraddoldeb ac amrywiaeth
- llywodraethu gwybodaeth
- diogelwch TG
- rheoli dogfennau a chofnodion
- y cyfryngau cymdeithasol.

7 Yn amodol ar bolisïau corfforaethol, a chyda chytundeb y Bwrdd, gall y Pwyllgor gael cyngor allanol, arbenigol a fydd yn cael ei gaffael yn unol â phrosesau caffael Swyddfa Archwilio Cymru.

# Gweithgareddau awdurdodedig

8 Mae'r Bwrdd yn awdurdodi'r Pwyllgor:

(a) i ymchwilio i unrhyw weithgarwch o fewn ei gylch gorchwyl ac i wneud sylw a chynghori ar drefniadau yn Swyddfa Archwilio Cymru;

[1] Mae newydd neu ddadleuol yn golygu unrhyw bolisïau newydd neu newidiadau i bolisïau a allai arwain at anghytundebau, er enghraifft gyda'r undebau llafur, neu a allai ddwyn risgiau i enw da neu risgiau eraill

(b) i gael unrhyw ddogfennau neu wybodaeth arall gan staff Swyddfa Archwilio Cymru y mae eu hangen arno i gyflawni ei ddyletswyddau;

(c) yn unol â pholisïau corfforaethol, a chyda chytundeb y Bwrdd, i gael cyngor allanol, arbenigol fel y barno'n angenrheidiol wrth gyflawni ei gyfrifoldebau, gan gynnwys cael gwybodaeth gyfoes, ddibynadwy am gydnabyddiaeth ariannol mewn sefydliadau eraill.

## Aelodaeth a Chworwm

9 Mae'r Pwyllgor yn cynnwys dau aelod o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru o blith y cyflogeion a thri aelod anweithredol o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, y maent i gyd yn cael eu penodi gan y Bwrdd, gydag un o'r aelodau anweithredol hynny'n cael ei benodi gan y Bwrdd i fod yn Gadeirydd y Pwyllgor. Yr unigolion ag aelodaeth o'r fath fydd y rhai a gofnodir fel y rhai a benodwyd o bryd i'w gilydd yng nghofnodion y Bwrdd.

10 Mae penodiadau i'r Pwyllgor am hyd at bedair blynedd a gellir rhoi estyniad am gyfnod pellach o hyd at bedair blynedd. Wrth benodi'r Cadeirydd ac aelodau bydd y Bwrdd yn sicrhau bod y Pwyllgor yn ei gyfanrwydd yn meddu ar yr ystod o sgiliau y mae eu hangen i'w alluogi i gyflawni ei swyddogaeth ar y cyfan.

11 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol, er mwyn i unrhyw un o gyfarfodydd y Bwrdd neu ei Bwyllgorau fod â chworwm, bod rhaid i'r mwyafrif o'r aelodau sy'n bresennol fod yn aelodau anweithredol o'r Bwrdd. Yn unol â hynny, os ceir presenoldeb llawn yng nghyfarfod Pwyllgor, y cworwm yw presenoldeb tri aelod anweithredol o'r Bwrdd.

12 Os nad yw aelod anweithredol o'r Bwrdd yn gallu bod yn bresennol yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor gallant, yn amodol ar gael cytundeb Cadeirydd y Pwyllgor ymlaen llaw (neu, yn eu habsenoldeb, Gadeirydd y Bwrdd) a hysbysu Ysgrifennydd y Bwrdd, drefnu bod aelod anweithredol arall o'r Bwrdd (nad yw'n aelod o'r Pwyllgor) yn bresennol mewn cyfarfod penodedig yn eu lle. Bydd y dirprwy aelod yn aelod o'r Pwyllgor ar gyfer y cyfarfod hwnnw a bydd yn cyfranogi yn y cyfarfod gyda'r un dyletswyddau a chyfrifoldebau ag aelod.

13 Fel arall, os nad yw aelod anweithredol o'r Bwrdd yn gallu bod yn bresennol yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor ac os na phenodir dirprwy, gall Cadeirydd y Pwyllgor ofyn i'r aelod o blith y cyflogeion adael y cyfarfod ac aros yn absennol i'w alluogi i fod â chworwm.

14 Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd yn cofnodi unrhyw gam gweithredu i reoli'r cworwm yng nghofnodion y cyfarfod (e.e. penodi dirprwy ar ran aelod anweithredol neu fod aelod o'r Bwrdd o blith y cyflogeion yn gadael y cyfarfod).

## Ysgrifenyddiaeth

15 Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn gweithredu fel ysgrifennydd y Pwyllgor ac mae'n gyfrifol am:

(a) sicrhau bod y Pwyllgor yn cael ei gyfansoddi a’i gynghori’n briodol a bod cydlynu clir rhyngddo a phwyllgorau eraill y Bwrdd;

(b) cynnal cyswllt â’r Cadeirydd ar y rhaglen waith;

(c) sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybodaeth a phapurau mewn modd amserol i’w gwneud yn bosibl rhoi ystyriaeth lawn a phriodol i’r materion;

(d) paratoi cofnodion drafft cyfarfodydd i gael eu cymeradwyo gan y Cadeirydd cyn iddynt gael eu dosbarthu i’r aelodau;

(e) cynnal cofnodion priodol o fusnes y Pwyllgor;

(f) drafftio deunydd ar gyfer adroddiad blynyddol y Pwyllgor; ac

(g) rhoi unrhyw gymorth ymarferol angenrheidiol arall.

# Cyfarfodydd

16 Mae’r Pwyllgor yn cwrdd hyd at bedair gwaith y flwyddyn fel arfer. Gall Cadeirydd y Pwyllgor gynnull cyfarfodydd ychwanegol fel y barno’n angenrheidiol. Gall aelodau’r Pwyllgor, aelodau’r Bwrdd, y Pennaeth Archwilio Mewnol neu’r archwilwyr allanol ofyn i’r Cadeirydd gynnull cyfarfodydd ychwanegol os ydynt yn ystyried bod hynny’n angenrheidiol. Ni fydd y Cadeirydd yn gwrthod unrhyw geisiadau rhesymol.

17 Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor eu galw gan Ysgrifennydd y Bwrdd ar gais y Cadeirydd. Ac eithrio mewn achosion brys a awdurdodwyd gan y Cadeirydd, bydd Ysgrifennydd y Bwrdd yn anfon rhybudd at yr aelodau o bob cyfarfod gan gadarnhau’r lleoliad, dyddiad ac amser ynghyd ag agenda o eitemau i gael eu trafod yn ddim hwyrach na phum niwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod. Bydd papurau ategol yn cael eu hanfon yr un pryd.

18 Oni bai bod y Cadeirydd yn penderfynu fel arall ar gyfer cyfarfod penodol, nid oes angen i gyfarfodydd y Pwyllgor ddigwydd mewn un lle ffisegol. Mae aelodau'r Pwyllgor yn cymryd rhan yn (ac yn rhan o'r cworwm mewn perthynas ag) un o gyfarfodydd y Pwyllgor, neu ran o un o gyfarfodydd y Pwyllgor, pan allant gyfathrebu’n gyfamserol gyda’i gilydd mewn unrhyw fodd. Os nad yw holl aelodau'r Pwyllgor sy'n cymryd rhan mewn cyfarfod yn yr un lle, gallant benderfynu bod y cyfarfod yn cael ei drin fel un a gynhelir ble bynnag y mae unrhyw un ohonynt

19 Yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor (ac ar yr amod bod yr holl aelodau eraill yn bresennol), gall yr aelodau sy’n weddill ethol un o’u plith hwy eu hunain i gadeirio’r cyfarfod. Dylai un o gyfarfodydd y Pwyllgor a gynullwyd yn briodol ac y mae cworwm yn bresennol ynddo fod yn gymwys i gyflawni’r holl neu unrhyw awdurdodau, pwerau a disgresiynau a ymddiriedwyd i’r Pwyllgor neu sydd i’w cyflawni gan y Pwyllgor.

20 Gall aelodau nad ydynt yn gallu bod yn bresennol godi unrhyw bwyntiau gyda’r Cadeirydd cyn y cyfarfod y maent yn ymwneud ag ef.

21 Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor eu mynychu gan yr Archwilydd Cyffredinol (fel y Prif Weithredwr a’r Swyddog Cyfrifyddu), Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol a’r Pennaeth Adnoddau Dynol. Gall Cadeirydd y Bwrdd fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor hefyd (os nad yw wedi’i benodi i’r Pwyllgor), a gall aelodau o’r Bwrdd nad ydynt wedi’u penodi i’r Pwyllgor fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor yn amodol ar gytundeb Cadeirydd y Pwyllgor. Gall archwilwyr allanol a mewnol Swyddfa Archwilio Cymru fod yn bresennol fel y bo’n ofynnol gan y Pwyllgor. Gall y Pwyllgor hefyd ofyn i unrhyw swyddogion eraill yn Swyddfa Archwilio Cymru fod yn bresennol i’w gynorthwyo gyda’i drafodaethau ar unrhyw fater penodol.

22 Gall y Pwyllgor ofyn i unrhyw rai neu bob un o’r rhai sydd fel arfer yn mynychu ond nad ydynt yn aelodau adael cyfarfod cyfan neu unrhyw ran o gyfarfod i hwyluso trafodaeth agored a didwyll am faterion penodol; bydd trafodaeth o’r fath yn cael ei chofnodi.

23 Dylai aelod o’r Pwyllgor neu rywun a fydd yn bresennol ynddo sy’n dod yn ymwybodol o wrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol mewn perthynas â materion a drafodir gan y Pwyllgor roi gwybod i’r Cadeirydd ymlaen llaw neu, os nad yw hyn yn bosibl, datgan hynny yn y cyfarfod a, lle y bo angen, gadael tra bo’r eitem berthnasol ar yr agenda’n cael ei thrafod.

24 Trwy eithriad, gall y Pwyllgor gael eitemau busnes y tu allan i gylch arferol cyfarfodydd, er enghraifft os ceir mater annisgwyl sy’n mynnu ymateb brys neu ar unwaith. Bydd y trefniadau ar gyfer cynnull cworwm, dosbarthu papurau a chofnodi ystyriaethau’r Pwyllgor a nodir yn y cylch gorchwyl hwn yn berthnasol.

# Mynediad

25 Gall Cadeirydd y Pwyllgor ofyn am drafodaethau preifat gyda Chadeirydd y Bwrdd, y Prif Weithredwr, staff Swyddfa Archwilio Cymru a’r cynrychiolydd archwilio allanol fel y bo’n briodol.

26 Mae gan y Cadeirydd hefyd fynediad uniongyrchol at Gadeirydd Pwyllgor Cyllid y Senedd a gall ei hysbysu ynghylch materion sy’n achosi pryder. Cyn arfer yr hawl hon, bydd y Cadeirydd yn cynnal cyswllt â Chadeirydd y Bwrdd ac â Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i drafod y pryderon a’r dull gweithredu.

# Cyflwyno Adroddiadau

27 Bydd y drafodaeth ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn cael ei chofnodi’n gywir. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiadau ysgrifenedig ffurfiol i’r Bwrdd a’r Swyddog Cyfrifyddu ar ôl pob cyfarfod.

28 Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiadau blynyddol ysgrifenedig ffurfiol i’r Bwrdd ar ei weithgareddau ac ar drefniadau rheoli a datblygu adnoddau dynol Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd y Pwyllgor yn ystyried cwmpas a fformat ei adroddiad blynyddol drafft yn ei gyfarfod ym mis Ebrill/Mai.

## Gofynion o ran gwybodaeth a rhaglen fusnes

29 Bydd y Pwyllgor yn cael papurau yn ôl ei raglen waith gytunedig y bydd yn ei hadolygu ym mhob cyfarfod.

30 Trwy eithriad, gall y Pwyllgor hefyd gael papurau pan fo'r Cadeirydd yn gofyn hynny neu pan fo'r Prif Weithredwr neu Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol yn ystyried bod materion y dylid eu dwyn i sylw'r Pwyllgor, gan gynnwys:

(a) unrhyw newidiadau arwyddocaol i'r gofrestr risgiau strategol mewn perthynas ag unrhyw faterion sy'n berthnasol i gyfrifoldebau'r Pwyllgor;

(b) penderfyniadau perthnasol y Tîm Arwain Gweithredol;

(c) cynlluniau ar gyfer, a chanlyniad unrhyw waith archwilio mewnol perthnasol gan gynnwys ymateb y rheolwyr i unrhyw argymhellion; a

(d) adroddiad ar gynnydd (lle y bo'n briodol) gan y cynrychiolydd archwilio allanol, yn crynhoi unrhyw waith perthnasol a wnaed a chanfyddiadau sy'n dod i'r amlwg.

31 Mewn perthynas ag unrhyw waith archwilio mewnol neu allanol, erys y cyfrifoldeb am ddarparu'r sicrwydd angenrheidiol ar gyfer y Bwrdd gyda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Bydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol yn ystyried y materion hyn dim ond i'r graddau y bo hynny'n angenrheidiol dan ei gylch gorchwyl.

## Adolygu perfformiad, hyfforddiant a datblygu

32 Bydd y Cadeirydd yn adolygu perfformiad aelodau'n flynyddol yn unol â'r fframwaith rheoli perfformiad a sefydlwyd at y diben hwnnw. Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn adolygu perfformiad y Cadeirydd yn flynyddol.

33 Bydd y Pwyllgor yn ystyried yr angen am broses sefydlu, hyfforddiant a datblygu ar sail barhaus.

34 Bydd y Pwyllgor yn cynghori'r Bwrdd ynghylch unrhyw ddiffygion yn ôl pob golwg y bydd o bosibl yn eu hadnabod o bryd i'w gilydd yn sgiliau cyfunol ei aelodaeth.

## Adolygu'r cylch gorchwyl

35 Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r cylch gorchwyl hwn bob tair blynedd ac yn eu cyflwyno, ynghyd ag unrhyw gynnig ar gyfer diweddariad, i'r Bwrdd er mwyn i'r Bwrdd eu hadolygu a'u cymeradwyo.

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn
yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English